
2024

# Pecyn Cynllun Cysgodi

Gwobrau Tir na n-Og 2024

## Categori Uwchradd










## Cynnwys


**Llyfrau'r Rhestr Fer** 2

**Sbardun Sgwrs:** 3
*Cwestiynau a phwyntiau i sbarduno trafodaeth*

**Sbardun Syniadau:** 4
*Beth am ...? Syniadau i sbarduno'r dychymyg*

**Adnabod Awdur**
- Megan Angharad Hunter 7
- Sian Eirian Lewis 9
- Casia Wiliam 10

**Adnabod Darlunydd**
- Celyn Hunt 11

**Adnabod Dylunydd**
- Tanwen Haf 12

**Y Beirniaid** 13

**Sylwadau'r Beirniaid** 14


**Tudalen Nodiadau** 17

**Matrics Sgorio** 18

**Cardiau Pleidleisio** 19




CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES




**Astronot yn yr Atig** (Y Lolfa) *Ffuglen*
Awdur: Megan Angharad Hunter

Mae Rosie wedi gwirioni ar y gyfres deledu Yr Estronos ac ar ofodwyr, a phan fo llong ofod yn glanio yn yr ardd gefn, mae wrth ei bodd. Nofel yw hon am greu cyfeillgarwch, am deithio'n ôl ac ymlaen mewn amser, am dyfu i fyny mewn byd cymhleth ac anodd, ac am wthio ffiniau'r dychymyg i'r eithaf.

---




**Fi ydy Fi** (Y Lolfa) *Llyfr Ffeithiol / Llyfr Gwybodaeth*
Awdur: Sian Eirian Lewis Darlunydd: Celyn Hunt

Llyfr gwybodaeth i ferched 8+ oed am dyfu i fyny yw *Fi ydy Fi*. Mae pob pennod yn trafod agwedd benodol o'r profiad, gan gynnwys: Pam mae fy nghorff yn aeddfedu?, Hormonau, Bronnau, Blew, Chwysu, Croen, Mislif, Deall fy emosiynau, Fy nghorff, a Ffrindiau. Llyfr addysgiadol, diddorol a lliwgar â darluniau gwych.

---





**Sêr y Nos yn Gwenu** (Y Lolfa) *Ffuglen*
Awdur: Casia Wiliam

Nofel gyfoes i'r arddegau hŷn yw *Sêr y Nos yn Gwenu*. Mae'n dilyn bywydau Leia a Sam. Dyma stori gariad gignoeth, sydd hefyd yn stori am gymuned, am ddysgu, am fentro ac am faddeuant. Ar ôl cael eu gorfodi i fod ar wahân am sbel, gwelwn eu llwybrau'n croesi eto yn y ganolfan gymunedol, lle mae'r stori deimladwy hon yn cychwyn.

---

***Cofiwch fod rhai o'r llyfrau ar gael yn ddigidol fel e-lyfrau hefyd. Ewch i'ch siop lyfrau, llyfrgell leol neu i'n gwefan www.gwales.com i ddod o hyd i'r teitlau uchod ac am fwy o wybodaeth.***







# Cwestiynau a phwyntiau trafod i sbarduno trafodaeth

- Beth wnaethoch chi ei fwynhau am y llyfr?
- Oedd y llyfr yn hawdd ac yn bleserus i'w ddarllen?
- Disgrifiwch eich hoff ran o'r llyfr. Pam mai dyna yw eich hoff ran?
- Oeddech chi'n hapus gyda diwedd y stori? Pam hynny?
- Petaech chi'n gallu cwrdd ag unrhyw gymeriad yn y llyfr, pa gymeriad fyddai hynny a pham?
- Beth wnaethoch chi ddim ei fwynhau am y llyfr?
- Pa gwestiynau oedd gennych chi am y stori wrth i chi ddarllen y llyfr? Gawson nhw eu hateb? Os do, sut?
- Ydych chi'n credu bod teitl y stori'n gweddu i'r stori? Pam hynny? Os na, beth fyddech chi'n galw'r llyfr?
- Oedd y llyfr yn wahanol i'ch disgwyliadau chi? Os felly, sut?
- Beth hoffech chi ei newid am y llyfr a pham? Sut fyddech chi'n ei newid?
- Hoffech chi ddarllen y llyfr eto? Pam hynny?
- Pa gwestiynau sydd gennych chi am y stori ar ôl gorffen y llyfr?
- Ydych chi'n credu y byddwch chi'n cofio'r llyfr yma ymhen ychydig fisoedd neu flynyddoedd? Pam hynny?
- Yn eich barn chi, a fyddai newid lleoliad neu gyfnod y stori'n effeithio arni? Ym mha ffordd?
- Beth yw eich barn chi am glawr y llyfr?
- Gan beth gawsoch chi eich synnu yn y llyfr yma? Ym mha ffordd?
- Gawsoch chi eich atgoffa o unrhyw lyfrau eraill, ffilmiau neu raglenni teledu wrth ddarllen y llyfr yma?
- A hoffech chi ddarllen mwy o lyfrau fel hyn? Pam hynny?
- Beth yw eich barn chi am y themâu sy'n cael eu trafod yn y llyfr?
- Yn eich barn chi, i bwy mae'r llyfr yma'n addas?
- Petaech chi'n cwrdd â'r awdur, pa dri chwestiwn hoffech chi ofyn iddo neu iddi?
- Petai tri chopi o'r llyfr gennych chi i'w rhoi yn anrhegion, i bwy fyddech chi'n eu rhoi nhw a pham?
- Petai'r llyfr yn cael ei droi'n rhaglen deledu neu ffilm, pwy fyddech chi'n castio yn brif gymeriadau? Pam hynny?
- Disgrifiwch y llyfr mewn brawddeg.
- A oes unrhyw beth hoffech chi ddysgu rhagor amdano ar ôl darllen y llyfr yma?
- Sylwoch chi ar unrhyw batrymau yn y stori?
- Petaech chi'n gallu bod yn y llyfr, pa ddigwyddiadau hoffech chi fod yn rhan ohonyn nhw a pham?
- Ydych chi wedi dysgu unrhyw beth trwy ddarllen y llyfr yma? Os ydych chi, beth?






## Beth am …? Syniadau i sbarduno'r dychymyg

**Meysydd Dysgu a Phrofiad**


**Celfyddydau Mynegiannol, Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, Gwyddoniaeth a Thechnoleg**

***Astronot yn yr Atig***
gan Megan Angharad Hunter

### Beth am …

**Dylunio**

Mae Rosie yn hoffi darllen am y gofod neu ddewis pa blaned mae hi eisiau ei dylunio nesaf, fel "planed sydd wedi'i gorchuddio efo miloedd o lwybrau troellog" (tudalen 23). Beth am ddylunio eich planed eich hun? Neu beth am ddylunio eich llong ofod eich hun? Gallwch chi ddefnyddio'r disgrifiad ar dudalennau 26–7, neu luniau ar y we neu mewn llyfrau, i'ch ysbrydoli chi.




**Chwarae rôl**

Beth am chwarae rôl?

Y gadair boeth …

Beth am eistedd yn y 'gadair boeth' a chwarae rôl cymeriad o *Astronot yn yr Atig,* neu ofodwr enwog? Mae'n rhaid i'ch cyd-ddisgyblion ofyn cwestiynau.

**Adeiladu**

Mae Rosie yn cynnig creu "den" i helpu cuddio'r llong ofod (tudalen 30). Beth am adeiladu den yn eich dosbarth chi? Den darllen sy'n llawn llyfrau!

**Trafod**

Mae Rosie eisiau bod yn ofodwr. Beth ydych chi eisiau bod pan fyddwch chi'n hŷn? Hoffech chi fod yn ofodwr fel Rosie? Beth am drafod y gwahanol bethau hoffech chi eu gwneud pan fyddwch chi'n hŷn?





# Beth am ...? Syniadau i sbarduno'r dychymyg

**Meysydd Dysgu a Phrofiad**

**Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, Gwyddoniaeth a thechnoleg, Iechyd a Lles**

***Fi Ydy Fi***
gan Sian Eirian Lewis




## Beth am ...

### Ysgrifennu

Beth am ysgrifennu rhestr o eiriau, fel sydd ar dudalennau 5–6, o'r holl bethau sy'n eich disgrifio chi orau ac sy'n eich gwneud chi'n unigryw? Gallwch chi wneud hynny gyda ffrind ac ysgrifennu rhestr o'r holl bethau sy'n eu gwneud nhw'n unigryw, neu'n ffrind da, gan gynnwys rhesymau dros eich dewis. (Mae syniadau ar dudalennau 74–5 hefyd.) Gallwch chi ddewis geiriau o dudalen 5 neu eiriau addas eraill. Dyma frawddeg i'ch helpu chi gychwyn: *Dyma eiriau da i fy nisgrifio i/Dyma eiriau da i ddisgrifio fy ffrind.*

### Creu

Fel dosbarth, beth am greu cwis yn seiliedig ar yr holl ffeithiau sydd yn y llyfr? Gallwch chi gystadlu mewn timau a dewis rhywun i ofyn y cwestiynau. Dyma gwestiwn i'ch helpu chi i ddechrau: Pa ganran o ferched a bechgyn sydd ag *acne* yn eu harddegau?

### Trafod

"Mae trafod pob math o bethau am dyfu i fyny" fel "y pethau sy'n poeni pawb" a "phwysigrwydd gwneud y pethau sy'n codi dy galon di" yn ganolog i'r llyfr hwn. Mewn grwpiau neu barau, beth am drafod y math o bethau sy'n poeni pawb wrth dyfu'n hŷn, gan ddefnyddio penodau o'r llyfr i helpu sbarduno'r sgwrs? Wedyn gallwch chi drafod a rhannu syniadau am y pethau sy'n codi calon wrth wynebu pethau heriol, fel teimladau newydd, bwlio, ac ati. Neu, gallwch chi ddewis pennod benodol o'r llyfr i'w thrafod.

### Ymchwilio

Mewn grwpiau neu barau, beth am ddewis pwnc penodol o'r llyfr, neu bwnc arall sy'n gysylltiedig â'r corff, a gwneud gwaith ymchwil er mwyn creu cyflwyniad ar gyfrifiadur, neu drwy ddefnyddio technoleg?






# Beth am ...? Syniadau i sbarduno'r dychymyg

**Meysydd Dysgu a Phrofiad**

**Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, Celfyddydau Mynegiannol, Iechyd a Lles**

***Sêr y Nos yn Gwenu***
gan Casia Wiliam

## Beth am ...

### Ysgrifennu

Beth am ysgrifennu portread o un o'r prif gymeriadau, fel Sam neu Leia? Gallwch chi ysgrifennu rhestr o nodweddion cymeriad o'ch dewis chi fel man cychwyn.

### Dylunio

Mae llawer o'r stori'n digwydd yng Nghanolfan Gymunedol Llanfechan. Mewn grwpiau, beth am ddylunio canolfan gymunedol? Meddyliwch am y gair 'cymuned' a beth mae'n ei olygu i chi. Meddyliwch am y math o gyfleusterau hoffech chi eu cynnwys. Oes gofod y tu allan, er enghraifft? Pa fath o ddigwyddiadau, sesiynau a gweithgareddau fyddech chi'n eu cynnwys ar yr amserlen wythnosol? Ar gyfer pa oed? Beth yw enw'r ganolfan? Gallwch chi ddylunio'r ganolfan ar bapur neu ddefnyddio technoleg.

### Sgriptio

Beth am ddewis rhan o'r nofel a'i throi'n sgript sioe fer? Gallwch chi ddefnyddio deialog o'r llyfr i'ch helpu chi i ddechrau, a chynnwys cymeriadau o'r llyfr yn ogystal â rhai eich hunain. Gallwch chi berfformio'ch sioe yn fyw neu ffilmio'ch perfformiadau ac ychwanegu effeithiau trwy ddefnyddio meddalwedd fideo.




### Trafod

Beth am ddewis un o brif themâu'r llyfr i'w thrafod mewn grwpiau neu barau?

Mae euogrwydd, er enghraifft, yn un o brif themâu'r nofel. Sut mae'r awdur yn cyfleu'r thema hon? Ydyn ni fel darllenwyr i fod i feirniadu'r cymeriadau? Ydy'r cymeriadau yn beirniadu ei gilydd? Sut mae beirniadu yn cyfrannu at euogrwydd Leia? Rydyn ni'n gweld mwy nag un persbectif yn y llyfr. Ydy hynny'n ein helpu ni i ddeall safbwynt y cymeriadau? Sut ydyn ni'n gwybod bod Leia'n teimlo'n euog yn ystod y sgwrs rhyngddi hi a Sam ar ddiwedd pennod 7 (tudalen 58), er enghraifft? Allwch chi ddod o hyd i enghreifftiau eraill?

# Megan Angharad Hunter



**Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?**
Geni yng Nghaerdydd a magu ym Mhenygroes, Dyffryn Nantlle.

**Ble aethoch chi i'r ysgol?**
Ysgol Bro Lleu (cynradd) ac Ysgol Dyffryn Nantlle (uwchradd).

**Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?**
Ro'n i'n mwynhau Eisteddfod Ysgol Dyffryn Nantlle yn ofnadwy, a'r ymdeimlad o gymuned mewn ysgol mor fach. Ro'n i'n casáu gwersi ymarfer corff a'r ciw cinio! Yn yr ysgol gynradd, roeddwn i'n mwynhau'r cyfle i ddysgu rhywbeth newydd bob dydd, y tripiau (Glan-llyn ac ati), a chwarae ar yr iard ar ddiwrnodau braf, ond yn casáu diwrnod mabolgampau – roedd yn well gen i eistedd yn y dosbarth yn darllen!

**Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu fyny?**
Awdur!

**Pa un oedd eich hoff lyfr yn blentyn?**
Gormod i enwi un, ond yn yr ysgol gynradd mi oeddwn i wrth fy modd efo'r gyfres Warrior Cats, Harry Potter a llyfrau Michael Morpurgo.

**Beth yw eich diddordebau?**
Darllen, pobi, ffilmiau, treulio amser efo anifeiliaid, cerdded yn y mynyddoedd, cerddoriaeth (gwrando a chwarae – ffliwt, sacsoffon, piano, gitâr).

**Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?**
Bwyd, mwy o fwyd, sgwennu, chwerthin efo ffrindiau a theulu a llenwi fy nyddiau efo'r celfyddydau.

**Beth sy'n eich gwylltio chi?**
Y newyddion a phob math o anghyfiawnder.

**Pryd ddechreuoch chi feddwl am ysgrifennu?**
Pan wnes i ddechrau darllen er mwyn pleser ar fy mhen fy hun ... felly pan o'n i tua 4 oed!






**O ble rydych chi'n cael eich syniadau?**
Pobol – mae'r rhan fwyaf o'm syniadau'n dod o'r cymeriadau, ac yn datblygu wrth i mi feddwl amdanyn nhw.

**Oes yna themâu/pynciau arbennig sy'n apelio atoch?**
Iechyd meddwl, y cymunedau LHDTC+ ac anabl (dwi'n aelod o'r ddwy gymuned), cyfeillgarwch a'r celfyddydau.

**Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu?**
Os wyt ti'n mwynhau sgwennu, jyst sgwenna – dwi'n addo i chdi y bydd rhywun arall yn mwynhau darllen dy waith os wyt ti'n mwynhau'r broses o sgwennu'r gwaith hwnnw. A meddylia am dy hoff lyfrau ... beth wyt ti'n ei hoffi amdanyn nhw? Be sy'n eu gwneud nhw'n llyfrau mor dda? Tria efelychu'r elfennau hynny yn dy waith dy hun.

**Beth yw'r peth gorau/gwaethaf am fod yn awdur?**
Y peth gorau ydi'r broses o ddod i nabod y cymeriadau a'r wefr o fethu stopio sgwennu tan oria mân y bore. Mae cael ymateb gan ddarllenwyr hefyd yn beth arbennig. Y peth gwaethaf am fod yn awdur ydi'r unigrwydd – ti fel arfer yn gweithio ar dy ben dy hun. Dwi hefyd wastad yn ansicr am fy ngwaith ... dwi byth yn gwybod os ydi o'n dda neu beidio nes bod rhywun dwi'n drystio wedi darllen y gwaith a rhannu'i farn efo fi.

## Cwestiynau Cyflym

**Hoff lyfr o'ch plentyndod?**
Cyfres Harry Potter.

**Hoff gymeriad o lyfr?**
Lyra o *His Dark Materials* a *The Book of Dust*.

**Hoff le?**
Mynyddoedd Eryri, siopau llyfrau a sinema canolfan Chapter yng Nghaerdydd.

**Hoff fwyd?**
Aaaa ... amhosib dewis! Dwi'n hoff iawn o fwyd Eidalaidd, Thai, Fietnamaidd ... ac unrhyw beth siocled!

**Hoff ffilm/rhaglen deledu?**
Eto, CWBL amhosib dewis! Ond fy hoff ffilmiau llynedd oedd *Barbie*, *Past Lives* a *Bones and All*.

**Hoff air?**
Bendigedig.

**Superpower o ddewis?**
Troi'n anweledig.

**Hoff rwydwaith cyfryngau cymdeithasol?**
Dwi erioed wedi bod yn 'hoff' o gyfryngau cymdeithasol, a bod yn onest!

**Beth sy'n gwneud i chi wenu?**
Unrhyw beth! *Voice note* gan ffrind, bwyd da, darganfod cân newydd, bore braf.


**Swydd tasech chi dim yn awdur? Swydd ddelfrydol?**
Meddyg neu gerddor.

**Top tip i ddarpar awduron:**
Os wyt ti'n mwynhau sgwennu, jyst sgwenna. Dwi'n addo i chdi y bydd rhywun arall yn mwynhau darllen dy waith os wyt ti'n mwynhau'r broses o'i sgwennu. A meddylia am dy hoff lyfrau ... beth wyt ti'n ei hoffi amdanyn nhw? Be sy'n eu gwneud nhw'n llyfrau mor dda? Tria efelychu'r elfennau hynny yn dy waith dy hun.

# Sian Eirian Lewis








**Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?**
Pen Llŷn.

**Ble aethoch chi i'r ysgol?**
Ysgol Botwnnog.

**Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?**
Ro'n i'n casáu gwersi ymarfer corff, ac yn arbennig rhedeg trawsgwlad ar hyd caeau mwdlyd Botwnnog! Y peth gorau – cael chwerthin a mwydro yng nghwmni ffrindiau da.

**Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu fyny?**
Gofalwr mewn sw. Ro'n i wrth fy modd yn gwylio'r pengwiniaid yn nofio yn y tanc yn Sw Bae Colwyn ers talwm.

**Pa un oedd eich hoff lyfr yn blentyn?**
Mae gen i ddau! *Cyfrinach Betsan Morgan* gan Gwenno Hywyn a *Luned Bengoch* gan Elizabeth Watkin-Jones. Dwi wrth fy modd efo hanes, ac yn licio prif gymeriadau dewr a mentrus.

**Beth yw eich diddordebau?**
Nofio, padlfyrddio, cerdded ar y traeth ... unrhyw beth sy'n fy nghael i'n agos at ddŵr! A phengwiniaid.

**Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?**
Bod allan yn yr awr agored.

**Beth sy'n eich gwylltio chi?**
Gwynt a glaw a bod yn sownd yn y tŷ.

**Pryd ddechreuoch chi feddwl am ysgrifennu?**
Pan o'n i'n astudio ar gyfer fy arholiadau TGAU. Ro'n i'n mwynhau ysgrifennu straeon bychain fel dihangfa yn hytrach na chanolbwyntio ar ddysgu'r gwaith! Mi ges i bob anogaeth i ysgrifennu a chystadlu mewn eisteddfodau gan fy athrawon Cymraeg yn yr ysgol hefyd, oedd yn help mawr.

**O ble rydych chi'n cael eich syniadau?**
Mae fy mhlant yn dda am gynnig syniadau i mi. Mae'n ddifyr gweld pa lyfrau maen nhw'n eu mwynhau ar hyn o bryd, a'r pynciau sy'n taro deuddeg efo nhw a'u ffrindiau.

**Oes yna themâu/pynciau arbennig sy'n apelio atoch?**
Dwi'n licio dysgu pethau newydd, felly dwi'n mwynhau rhoi cynnig ar bynciau neu themâu sy'n newydd i mi.

**Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu?**
Peidio â bod ofn rhoi cynnig arni, ac i fwynhau'r profiad.

**Beth yw'r peth gorau/gwaethaf am fod yn awdur?**
Mae'n broses unig iawn ar brydiau, ac mae ysgrifennu'n cymryd llawer iawn o amser. Y peth gorau am ysgrifennu ydy teipio'r drafft cyntaf o'r gwaith ar ôl wythnosau/misoedd/blynyddoedd o fod yn potsian efo'r syniad yn eich pen. Mae'n deimlad braf cael ei roi ar bapur o'r diwedd!

## Cwestiynau Cyflym

**Hoff lyfr o'ch plentyndod?**
*Cyfrinach Betsan Morgan* gan Gwenno Hywyn.

**Hoff gymeriad o lyfr?**
Luned (*Luned Bengoch* gan Elizabeth Watkin-Jones).

**Hoff le?**
Ynys Llanddwyn.

**Hoff fwyd?**
Bwyd môr.

**Hoff ffilm?**
*Little Women.*

**Hoff air?**
Swatio.

**Superpower o ddewis?**
Y gallu i nofio fel pysgodyn.

**Hoff rwydwaith cyfryngau cymdeithasol?**
Instagram.

**Beth sy'n gwneud i chi wenu?**
Twm y ci.

**Swydd tasech chi dim yn awdur? Swydd ddelfrydol?**
Ceidwad anifeiliaid mewn sw.

**Top tip i ddarpar awduron:**
Peidiwch â phoeni'n ormodol am y peth. Mi fydd 'na awduron sy'n fwy clyfar/gwreiddiol/cywir/dawnus na chi, ond be ydy'r ots am hynny? Dim ond chi sydd â'r gallu i ddeud eich stori arbennig chi. Ewch amdani.

# Casia Wilam








**Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?**
Yn Llangefni nes oeddwn ni'n chwech, ac wedyn yn Nefyn ym Mhen Llŷn.

**Ble aethoch chi i'r ysgol?**
Ysgol Gynradd Nefyn ac yna Ysgol Uwchradd Botwnnog.

**Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?**
Ro'n i'n hoff iawn o gacen sbwng siocled efo cwstard siocled yn y cantîn, ac yn mwynhau cael ysgrifennu straeon a darllen nofel ar y cyd fel dosbarth, a chwarae rownders.

**Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu fyny?**
Awdur a cheidwad sw!

**Pa un oedd eich hoff lyfr yn blentyn?**
Dwi'n cofio gwirioni ar *Y Gwningen yn Cipio'r Tân*, ac yna *Gwe Gwenhwyfar*. W, a holl lyfrau Elgan Philip Davies hefyd, a llyfrau Judy Blume. Lot o ffefrynnau.

**Beth yw eich diddordebau?**
Crwydro, bwyta, a chwarae gyda fy meibion, Caio a Deri.

**Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?**
Bore braf a chynnes a'r adar yn canu. Dwi ddim yn licio'r gaeaf.

**Beth sy'n eich gwylltio chi?**
Pobl ddim yn rhoi cŵn ar dennyn pan maen nhw fod ar dennyn.

**Pryd ddechreuoch chi feddwl am ysgrifennu?**
Dwi wedi ysgrifennu erioed, yn llun a stori neu'n ddyddiadur neu benillion bach. Doedd o erioed yn benderfyniad penodol a dweud y gwir, jest dyna dwi'n ei wneud!

**O ble rydych chi'n cael eich syniadau?**
Ar hyn o bryd mae'r plant yn rhoi llawer o syniadau i mi. Yn 7 a 3 oed maen nhw'n llawn dychymyg ac yn meddwl am bethau gwych a gwallgo. Dwi'n aml yn benthyg eu syniadau!

**Oes yna themâu/pynciau arbennig sy'n apelio atoch?**
Dwi'n hoff o sgwennu am bobl a chymeriadau, a dweud y gwir, yn fwy na themâu neu bynciau arbennig.

**Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu?**
Ceisiwch ysgrifennu fel eich hoff awdur, ac yna daliwch ati i ysgrifennu, nes dod o hyd i'ch llais eich hun.

**Beth yw'r peth gorau/gwaethaf am fod yn awdur?**
Gorau: rhywun yn dweud eu bod wedi mwynhau un o fy llyfrau. Gwaethaf: lot fawr o oriau ar ben fy hun gyda neb ond y laptop yn gwmni.

## Cwestiynau Cyflym

**Hoff lyfr o'ch plentyndod?**
*Y Gwningen yn Cipio'r Tân.*

**Hoff gymeriad o lyfr?**
Jini Mê.

**Hoff le?**
Traeth Dinas Dinlle.

**Hoff fwyd?**
Salad. Jôc! Cacen siocled.

**Hoff ffilm/rhaglen deledu?**
*Moana.*

**Hoff air?**
Pendwmpian.

**Superpower o ddewis?**
Rhewi amser.

**Hoff rwydwaith cyfryngau cymdeithasol?**
Instagram.

**Beth sy'n gwneud i chi wenu?**
Clywed fy meibion yn chwerthin o'u boliau.

**Swydd tasech chi dim yn awdur? Swydd ddelfrydol?**
Rhedeg caffi.

**Top tip i ddarpar awduron:**
Cadwch nodiadur; tydi syniadau ddim yn aros yn eich pen am byth!

# Celyn Hunt








**Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?**
Cefais fy ngeni a'm magu yn Nghasnewydd.

**Ble aethoch chi i'r ysgol?**
Es i i Ysgol Gymraeg Casnewydd ar gyfer addysg gynradd ac Ysgol Gyfun Gwynllyw ar gyfer addysg uwchradd.

**Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?**
Roeddwn i'n casáu pynciau academaidd fel mathemateg a gwyddoniaeth gan nad oeddwn i'n dda yn y pynciau yma, hyd yn oed os oeddwn i'n gweithio'n galed.

**Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu fyny?**
Arlunydd.

**Pa un oedd eich hoff lyfr yn blentyn?**
*Yr Arth yn y Cwtsh dan Stâr.*

**Beth yw eich diddordebau?**
Celf, gymnasteg, hanes a chanu'r piano a'r gitâr.

**Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?**
Treulio amser gyda ffrindiau a theulu, awyr iach, teithio i wledydd newydd ac arbrofi gyda syniadau celf newydd a gweld prosiectau yn dod at ei gilydd.

**Beth sy'n eich gwylltio chi?**
Pobl sy'n gas i eraill, bod yn hwyr a chodi'n gynnar yn y bore.

**Pryd ddechreuoch chi feddwl am darlunio?**
Ar ôl gweld darluniadau wnaeth fy nhad eu creu o gwmpas y tŷ.

**O ble rydych chi'n cael eich syniadau?**
Llyfrau plant, ffilmiau wedi eu hanimeiddio a darlunwyr ar gyfryngau cymdeithasol.

**Oes yna themâu/pynciau arbennig sy'n apelio atoch?**
Eiliadau bach o bob dydd sy'n syml ond yn ddiddorol, materion sy'n bwysig i ferched a materion cymdeithasol.

**Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio darlunio?**
I arbrofi gyda syniadau newydd yn aml, i gadw pob darn o waith er mwyn troi atyn nhw eto yn y dyfodol, a gweld pob camgymeriad fel sialens newydd.

**Beth yw'r peth gorau/gwaethaf am fod yn ddarlunydd?**
Y peth gorau yw gweld eich syniadau'n dod yn fyw, y peth gwaethaf yw cael eich gwaith wedi ei wrthod.

## Cwestiynau Cyflym

**Hoff lyfr o'ch plentyndod?**
*Yr Arth yn y Cwtsh dan* Stâr neu *The Invention of Hugo Cabret*.

**Hoff gymeriad o lyfr?**
Elsa o *The Bed and Breakfast Star*.

**Hoff le?**
Rhufain.

**Hoff fwyd?**
*Risotto*.

**Hoff ffilm/rhaglen deledu?**
*Line of Duty*.

**Hoff air?**
Bochdew.

**Superpower o ddewis?**
Y gallu i siarad unrhyw iaith.

**Hoff rwydwaith cyfryngau cymdeithasol?**
Instagram.


**Beth sy'n gwneud i chi wenu?**
Cathod.

**Swydd tasech chi dim yn ddarlunydd? Swydd ddelfrydol?**
Unrhyw swydd greadigol neu un yn ymwneud â graffeg.

**Top tip i ddarlunwyr y dyfodol**
Cadw ati a dyfalbarhau pan mae pethau'n anodd.

# Tanwen Haf






**Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?**
Cefais fy ngeni yn Nantlle, Gwynedd, cyn symud i Garndolbenmaen, ac yna i'r Barri a Chaerdydd pan o'n i'n hŷn.

**Ble aethoch chi i'r ysgol?**
Es i i ysgolion cynradd Baladeulyn a Garndolbenmaen, ac yna i Ysgol Eifionydd, Porthmadog.

**Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?**
Ro'n i wrth fy modd yn darllen yn ddi-baid, ond roedd rhoi pensel ar bapur yn artaith ...

**Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu fyny?**
Unrhywbeth heblaw artist fel Mam, sy'n grochenydd; roeddwn i eisiau bod yn 'fi'. Dwi wastad wedi bod eisiau dilyn fy nhrywydd fy hun. A 'Fi ydy Fi', wedi'r cyfan!

**Pa un oedd eich hoff lyfr yn blentyn?**
Roeddwn i wrth fy modd yn darllen addasiadau Cymraeg cyfres Narnia gan C. S. Lewis ac unrhyw beth gan Joan Aiken. Roedd Matilda yn arwres i mi, ac mae *Mrs Frisby and the Rats of NIMH* yn dal yn ffefryn.


**Beth yw eich diddordebau?**
Gormod i'w rhestru! Dwi yn mwynhau dysgu am bopeth, yn enwedig hanes, ac yn hel achau pan ga i gyfle. Mae teuluoedd fel posau jig-so enfawr, heblaw nad oes unrhyw syniad gennych chi sawl darn sydd yna wrth gychwyn.

**Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?**
Bod yn greadigol a bod yn yr awyr agored, yn garddio neu'n beicio. Alla i ddim dioddef eistedd yn segur, ddim hyd yn oed pan dwi ar fy ngwyliau.






## Sioned Dafydd



*Cadeirydd y Panel, Uwch Ddarlithydd Addysg, Prifysgol Metropolitan Caerdydd*

Mae gen i atgofion melys o wrando ar straeon yn cael eu darllen i fi yn blentyn. Yn ysgol Felin-fach ac yna Ysgol Aberaeron, doedd dim yn well na chael treulio gwers yn llyfrgell yr ysgol. Y ffefrynnau yr adeg honno oedd *Cysgod y Cryman* gan Islwyn Ffowc Elis a'r *Wisg Sidan* gan Elena Puw Morgan.

Fel mam i Lewys a Cadi, sydd bellach yn eu harddegau, dwi wedi mwynhau rhannu llyfrau gyda nhw, hyd yn oed pan oedd rhaid darllen *Cacen Sali Mali* am y canfed tro! Dwi hefyd wedi cael fy nghyflwyno i awduron ganddyn nhw, ac mae nofelau Manon Steffan Ros yn plesio pawb yn y teulu.

Dwi wrth fy modd pan mae fy hoff awduron yn cyhoeddi llyfr newydd ond dwi hefyd yn cael blas mawr ar ail-droi dalennau llyfr cyfarwydd; maen nhw fel hen ffrindiau rydych chi'n cadw mewn cysylltiad â nhw. Dwi'n grediniol bod ymgolli mewn llyfr da yn un o bleserau mwyaf bywyd.

## Rhys Dilwyn Jenkins



*Adolygydd Llyfrau ac Aelod o Glwb Darllen*

Roeddwn i'n mwynhau darllen yn arw pan oeddwn i'n iau. Wedyn roedd prysurdeb fy mywyd gwaith yn golygu nad oedd gen i lawer o amser i ddarllen, ond fe wnaeth cyfnodau cynnar y pandemig ailgynnau'r sbarc hwnnw i mi. Oherwydd hynny, creais gyfrif Instagram lle dwi'n ysgrifennu adolygiadau dwyieithog o lyfrau Cymraeg a Saesneg. Mae hi mor hyfryd cael rhannu fy hoff lyfrau â phobl.

Ymunais â chlwb Llyfrau Lliwgar yng Nghaerdydd yn ddiweddar, lle rydyn ni'n trafod llyfrau a ysgrifennwyd gan amrywiol awduron, ac mae themâu allweddol y storïau hyn yn canolbwyntio ar faterion LHDTC+. Mae'n brofiad hyfryd cael trafod y storïau hyn yn agored ac yn onest gyda grŵp mor gyfeillgar, ac mae'n wych cael darllen llyfrau na faswn i wedi'u darllen fel arall.

Mae'n fraint cael fy ngwahodd i fod ar banel beirniaid Gwobrau Tir na n-Og eleni, a dwi'n edrych ymlaen yn arw at ddarllen yr holl lyfrau a gweld beth sydd gan awduron Cymru i'w cynnig!

## Siôn Lloyd Edwards




*Myfyriwr Cymraeg*

Er fy mod yn Gymro i'r carn, mae'r diolch yn bennaf i Adran Gymraeg wych Ysgol Brynhyfryd am fy helpu i ddisgyn mewn cariad â llenyddiaeth Gymraeg. Yn fy amser hamdden rwyf wrth fy modd yn cymryd rhan mewn unrhyw fath o chwaraeon – pêl-droed yn bennaf. Rwyf hefyd yn hoff o'r celfyddydau.

Mae astudio'r Gymraeg yn Aberystwyth wedi agor fy llygaid i nifer o yrfaoedd ac wedi rhoi cyfle imi wthio fy ngalluoedd er mwyn cyflawni gwaith o'r safon uchaf. Mae'n fraint cael bod yn rhan o'r panel beirniaid eleni, ac edrychaf ymlaen yn arw at ddarllen y llyfrau i gyd. Diolch am y croeso, a phob hwyl!

## Sara Yassine



*Cyn-athrawes*


Dwi wastad wedi bod yn hoff o ddarllen. Roedd llyfr yn fy nwylo drwy'r dydd pan oeddwn yn iau. Roeddwn i'n mynd i'r llyfrgell leol ger fy nhŷ i'n aml ac yn benthyg cymaint o lyfrau ag y medrwn (o'r hyn dwi'n ei gofio, 10 oedd y mwyaf ar un tro – er mawr siom i mi). Fel llawer o blant eraill, fy hoff awdur oedd Enid Blyton ond roeddwn i'n mwynhau llyfrau Jacqueline Wilson a Roald Dahl hefyd.

Roedd gen i ddychymyg byw fel plentyn – rhywbeth a oedd yn bendant yn gysylltiedig â'r holl ddarllen. Mae darllen hefyd yn grêt er mwyn gwella eich geirfa a'ch dull ysgrifennu, ac os ydych chi'n dewis y llyfrau cywir, gallwch ddod yn fwy caeth iddyn nhw nag i'ch ffôn symudol.

Mae'n fraint cael bod yn rhan o'r panel eleni. Dwi'n edrych ymlaen yn fawr at weld beth sydd ar gael i blant heddiw, a hefyd gweld yr hyn y collais allan arno – er, dwi'n siŵr bydda i'n mwynhau darllen lot ohonyn nhw fel oedolyn!

Roeddwn i wrth fy modd gyda'r stori hon. Roedd hi'n un anturus a lliwgar, ac mae teimladau'r prif gymeriad wedi'u cyfleu mewn ffordd unigryw drwy gydol y nofel, sy'n brawf o ddawn yr awdur. Doeddwn i wir ddim eisiau i'r stori hon orffen.

Clasur!





Mae'n hyfryd gweld cymeriadau niwro-amrywiol yn serennu mewn nofelau Cymraeg.

Roedd y dwdls yn ysbrydoledig ac yn helpu'r darllenydd i ddeall Rosie pan nad oedd geiriau yn ddigon.

Braf iawn yw cael llyfr fel hwn yn Gymraeg.

Roedd hi'n dda cael adran i fechgyn yn y cefn hefyd.




Mae'n delio â ffeithiau am ddatblygiad y corff, ac mae'n adnodd dysgu da i bawb, waeth beth fo'u rhywedd.

Mae'r llyfr yn delio'n dda gyda materion anodd mewn ffordd heb fod yn gymhleth.

Stori gyfoes i ddarllenwyr hŷn yw hon sy'n cyfleu perthnasau a chyfeillgarwch mewn ffordd amrwd.

Nofel am gymuned oedd hon yn gymaint ag am bobl ifanc.





Roedd y ddeialog a'r cymeriadu yn gryf.


Gobeithio y bydd y nofel hon yn plesio cenhedlaeth newydd o bobl ifanc.

# Tudalen Nodiadau

**Defnyddiwch y dudalen hon ar gyfer unrhyw nodiadau hoffech chi eu hysgrifennu am y llyfrau.**
*Llungopïwch y dudalen yma i bob adolygwr.*




☆☆☆☆☆





☆☆☆☆☆




☆☆☆☆☆

# Matrics Sgorio

**Efallai bydd sgorio'r llyfrau yn eich helpu i benderfynu pa lyfr yw'r gorau yn eich barn chi.**

| **Llyfr** |   |   |   |
|---|---|---|---|
| **Teitl / Broliant** **/5**<br>Ydi'r broliant yn eich denu i ddarllen y llyfr?<br>Ydi hi'n amlwg o'r broliant pa fath o lyfr yw hwn?<br>Ydi'r teitl yn addas/effeithiol/apelgar?<br>Ydi'r broliant yn dweud digon/gormod am y llyfr?<br>Ydych chi'n hoffi'r teitl? | | | |
| **Clawr / Edrychiad** **/5**<br>Ydych chi'n hoffi'r clawr?<br>Beth sydd yn arbennig am y clawr neu'r ffordd mae'r llyfr yn edrych?<br>Ydi'r clawr yn ychwanegu at y stori?<br>Ydi'r clawr yn chwareus/cyffrous/diddorol yn eich barn chi?<br>Ydi'r clawr yn eich denu? | | | |
| **Arddull / Iaith** **/5**<br>Pa fath o iaith mae'r awdur wedi ei defnyddio? e.e. tafodiaith, disgrifiadau, odlau<br>Beth yw nodweddion arddull yr awdur?<br>Oedd yr iaith yn rhy hawdd neu'n rhy anodd?<br>Oeddech chi'n deall yr iaith?<br>Oedd yr iaith a'r arddull yn ddiddorol? | | | |
| **Cynnal diddordeb** **/5**<br>Wnaethoch chi fwynhau'r llyfr?<br>Beth oedd yn cynnal eich diddordeb? e.e. doniolwch, antur, cymeriadau, gwybodaeth.<br>Oeddech chi'n awyddus i ddarllen y llyfr i gyd?<br>Ydi'r llyfr yn mynd i aros yn eich cof?<br>Ydi'r llyfr yn un gwreiddiol? | | | |
| **Cymeriadau** **/5**<br>Pa fath o gymeriadau oedd yn y llyfr?<br>Oedd y cymeriadau yn rhai diddorol/credadwy?<br>Sut fyddech chi'n disgrifio'r cymeriadau?<br>Oedd y cymeriadau yn apelio atoch?<br>Oeddech chi'n gallu uniaethu neu deimlo empathi â'r cymeriadau? | | | |
| **Cyfanswm** **/25** | | | |






Nawr eich bod chi wedi darllen a thrafod y llyfrau sydd ar restr fer gwobr Tir na n-Og 2024, dyma'ch cyfle chi i bleidleisio dros y llyfr gorau, yn eich barn chi. Rhowch **X** yn y bocs i nodi'ch enillydd chi.

**Cofiwch bleidleisio yng nghategori Barn y Darllenwyr: tlws arbennig sy'n cael ei ddyfarnu gan blant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan yng Nghynllun Cysgodi Tir na n-Og.**

## Cerdyn Pleidleisio

**Astronot yn yr Atig** ☐

**Fi ydy Fi** ☐

**Sêr y Nos yn Gwenu** ☐

## Cerdyn Pleidleisio

**Astronot yn yr Atig** ☐

**Fi ydy Fi** ☐

**Sêr y Nos yn Gwenu** ☐

## Cerdyn Pleidleisio

**Astronot yn yr Atig** ☐

**Fi ydy Fi** ☐

**Sêr y Nos yn Gwenu** ☐

## Cerdyn Pleidleisio

**Astronot yn yr Atig** ☐

**Fi ydy Fi** ☐

**Sêr y Nos yn Gwenu** ☐

2024

Beth am rannu eich
profiad cysgodi ar y
cyfryngau cymdeithasol?

Cofiwch dagio ni:
**@LlyfrDaFabBooks**
a defnyddiwch
yr hashnodau:
**#CaruDarllen**
**#TNNO2024**
**#CysgodiTNNO2024**

Tir na n-Og
GWOBRAU • AWARDS

#CaruDarllen

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES